.WG35 S 204

# MARWNAD

## ER COFFA AM

# DANIEL WILLIAMS,

## O BENTREF LLANDYSSIL,

*Yr hwn a gafodd ei ladd yn ddamweiniol, Mai 16eg, 1838, drwy i ddarn o'r ddaear syrthio arno mewn Chwarel,* (Quarry,) *yn agos i'w artref. Boreu dydd Gwener, Pregethodd y Parch. Robert Owen, i dyrfa liosog a ddaethai ynghyd i wneyd y gymmwynas olaf a'i gorff, oddiar Job 16, 22; a chynghorodd bawb i ymofyn am barodrwydd, cyn rhodio y llwybr ar hyd yr hwn nis dychywelant. Cadwyd* Inquest *ar y corff, a phenderfynwyd ar y ddedfryd, "Marwolaeth Ddamweiniol."*

"Am hyny byddwch chwithau barod, canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y Dyn."—Iesu Grist.

---

GAN DAVID JONES, CWMMEUDWY.

---

CHWI drigolion yr holl ddaear,
Bawb 'run wedd, dewch yn mla'n,
I gael gwrandaw gair o ddifri,
Wyf yn draethu 'nawr ar gân;
Fe ddaeth newydd trwm i'm clustiau,
Angeu'n para i dorri lawr;
Un oedd hyfryd hardd ei rodiad,
Gwedi gadael teulu'r llawr.

2 Daniel Williams oedd ei enw,
Yn Llandyssil 'roedd yn byw;
'Mado wnaeth â gwlad y ddaear,
Aeth i orphwys at ei Dduw;
Gadawodd Wraig a Phlant i wylo,
Yn yr anial ar ei ol;
Gadawodd geraint a pherth'nasau;
Byth ni ddychwel mwy yn ol.

3 Y mae angeu'n torri beunydd,
Rai defnyddiol lawr â'i gledd;
Torrodd Daniel, heb ddim rhybydd,
Lawr i waelod oeraidd fedd.

Rees Jones

1086

X205316134

Credaf 'nawr ei fod uwch tristwch,
 Fry yn heddwch pur y Nef,
Gwedi gadael gwlad y ddaear,
 Yno 'n canu* "Iddo ef." [*Dat. 1. 5, 6.

4 Wrth ei waith brydnawn dydd Mercher,
 (Ing, â'i gledd, rydd angeu glas,)
Syrthiodd arno ddarn o'r ddaear
 Myned wnaeth o'r byd i ma's;
Ni cha'dd dd'wedyd,—"ffarwell gyfaill,"
 Ni cha'dd dd'wedyd,—"ffarwell mwy;"
Ni cha'dd dd'wedyd,—"trwm yw'r ergyd;"
 Gan mor ddyfned oedd y clwy.

5 Ar y trydydd dydd ar bymtheg,
 O fis Mai y rhoed ef i lawr,
I gyd orwedd yn y Fynwent,
 Gyda'r Tadau ddyrfa fawr,
Yn y flwyddyn mil ac wythcant,
 Ugain hefyd gyda hyn:
Tair-ar-bymtheg attyn' etto,
 O oed Crist fu ar y bryn.

6 Naw-ar-hugain o flynyddau,
 Ac un hefyd gyda hyn,
Gafodd Daniel ar y ddaear,
 Cyn dyoddef yn y glyn;
Cafodd iechyd da rhyfeddol,
 Heb ond ambell awel groes,
Heb un cystydd trwm i'w wasgu,
 Hyd y foment ola'i oes.

7 'Fe fu'n ffyddlawn rai blynyddau,
 Gafodd yma ar y llawr,
Yn ymdrechu 'ngwinllan Iesu,
 'Mhlaid galwadau'r nefoedd fawr;
Colled oedd i eglwys Peniel,
 Golli Daniel hoff ei wedd,
Ni cheir mwyach gyd-gyfarfod,
 'R ochor hon i byrth y bedd.

8 Adeiladydd o ran galwad,
 Ydoedd Daniel, dyna'i waith,
Wrth bar'töi i'r adeiladaeth,
 Aeth i'r tragywyddoldeb maith:

Codi carreg yn y Chwarel,
'Roedd pan angeu ddaeth i'w hol,
Cafodd yno ergyd marwol,
Ac ni ddychwel byth yn ol.

9 'Rwyf yn credu ei fod heddy',
Fry yn canu mewn gwell gwlad,
Nac a fedd y greadigaeth,
'Nhragwyddoldeb maith barhad;
Fry yn entrych gwlad gogoniant,
Gyda'r llu dysglaerwedd llon,
Yno'n moli'r Arglwydd Iesu,
Ac yn gorphwys ger ei fron.

10 Gadawodd Daniel hoff berth'nasau,
Yn yr anial ar ei ol,
Gadawodd ysgol rad Sabothol,
Heb ddychwelyd byth yn ol;
Ni cheir mwyach ei gwmpeini,
Na'i gyfeillach ar y llawr,
Na chyd ddysgu yn yr ysgol—
Aeth i'r trag'wyddol mawr.

11 Ei alarus deulu cofiwch,
Peidiwch wylo ar ei ol,
Rhaid i ninneu rodio llwybr,
Na ddychwelwn byth yn ol;
Ac am hyny byddwn barod,
I gyfarfod angeu glas,
Yn ein llestri, gyda'n lampau,
Mynnwn olew nefol ras.

12 Ffarwel bellach gyfaill hyfryd,
Rhowd dy gorff mewn bedd dan glo,
Yn yr arch, mewn annedd newydd,
Pridd a cherrig arno'n dô:
Fe ddaw boreu braf i wawrio,
Daw dy gorff o lwch y llawr,
'Rwy'n gobeithio cawn gydganu,
Yn y tragwyddoldeb mawr.

13 Attat, Arglwydd, boed fy ngweddi,
Dduw trag'wyddol, nefol Dad,
Am gymmeryd plaid y weddw,
A'r rhai bach sydd wrth ei thra'd;

Dwg 'nhwy'n mlaen trwy orthrymderau,
Tra b'ont ar y ddaear hon,
Fel y gallont beraidd ganu,
Yn y nefoedd ger dy fron.

14 Ni chawn bellach gwmni Daniel,
Gwn i ganu ar y llawr,
Na chyd weddio yn yr anial,
Aeth i drag'wyddoldeb mawr;
O ymdrechwn hen ac ieuainc,
Gwreng a bonedd oll i gyd,
Geisio Iesu, cyn del amser,
I ffarwelo â hyn o fyd.

15 Ac os cawn ni IESU'n geidwad,
Idd ein cynnal is y nen,
A'n heneidiau yn angori,
O fewn llys y nefoedd wen,
Ni gawn fyned adre'n dawel,
I Gaersalem, dinas hedd;
I gyd fwyta'r llo pasgedig,
Ar ol agor pyrth y bedd.

16 Obry'n Mynwent plwyf Llandyssil,
Rhowd ei gorff yn llwch y llawr,
Hyd nes cano udgorn cyfri,
"Codwch feirw fach a mawr,"
I gael rhoddi cyfri'n gywir,
O flaen Iesu Grist eich pen,"
Arglwydd grasol rho dy fendith,
Idd ein cymhorth fyth. Amen.

DIWEDD.

J. THOMAS, ARGRAFFYDD, CAERFYRDDIN.